## ‘Hawlio Heddwch’

# Canmlwyddiant Apêl Heddwch Menywod Cymru

1923 – 2023



‘Bydded inni drosglwyddo treftadaeth falch o Fyd Di-ryfel i'r cenedlaethau a ddaw ar ein hôl’

**Apêl Heddwch Menywod Cymru i America, 1923**

## Adnoddau Addysgol


WCIA

Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


2 **Cyflwyniad**

3 **Y Cyd-destun Ehangach**

4 **Sut mae'r pecyn hwn wedi'i drefnu**

4 **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cymreig**

5 **Cyflwyno'r Ddeiseb Heddwch** (Plant oed cynradd)

8 **Cyflwyno'r Ddeiseb Heddwch** (Plant oed uwchradd)

11 **Gweithgareddau dilynol** (Trawsgwricwlaidd)

18 **Creu Newid er mwyn Heddwch** (Cynllunio eich prosiect eich hun ar gyfer heddwch)

22 **Cyfeiriadau ac adnoddau pellach**








# Cyflwyniad

## Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru (1923 - 4)




Hanes Deiseb Heddwch Menywod Cymru i America (1923) oedd un o ddarganfyddiadau mwyaf dramatig y prosiect 'Cymru dros Heddwch' a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a aeth ati, yn ystod canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, i ddarganfod ac archwilio treftadaeth heddwch gyfoethog Cymru yn y 100 mlynedd ers y Rhyfel hwnnw. Dychmygwch ddarganfod yn llyfrgell y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, glawr lledr Moroco euraidd hardd, ac arno'r geiriau 'The Memorial from Wales signed by 390,296 women in Wales and Monmouthshire to the women of the United States of America: 1923 – 24' wedi'u harysgrifio, ac yn cynnwys datganiad heddwch dwy dudalen o hyd. Beth oedd y stori wrth wraidd y ddogfen hon? Pwy drefnodd y ddeiseb, a sut aethon nhw ati i gasglu cynifer o lofnodion? Ac ymhle oedd y llofnodion hynny?

### Roedd cymaint o gwestiynau i'w hateb!

Erbyn hyn mae rhai o'r cwestiynau hynny wedi'u hateb. Rydyn ni'n gwybod peth o'r hanes wrth wraidd deiseb heddwch 1923, ac mae'r hanes wedi'i ailadrodd yn syml yn yr adnoddau hyn. Mae'r llofnodion eu hunain, wedi'u cadw yn eu cist dderw, hefyd wedi cael eu hailddarganfod yn Amgueddfa Smithsonian yn Washington a'u dychwelyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Er hynny, mae llawer o gwestiynau i'w hateb o hyd. Sut yn union y cafodd y broses o gasglu llofnodion ei threfnu ym mhob ardal? Pwy oedd y menywod a lofnododd y ddeiseb, a pham y gwnaethon nhw hynny? Pa effaith gafodd y ddeiseb, yng Nghymru ac yn yr Unol Daleithiau? Mae cymaint o agweddau ar ôl i'w harchwilio!

Gellid dweud bod y ddeiseb wedi methu â chyflawni ei phrif amcan. Ni wnaeth yr Unol Daleithiau ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd ac ym mis Medi 1939 dechreuodd yr Ail Ryfel Byd. Yn yr Unol Daleithiau, fodd bynnag, gellir dweud bod ymweliad y menywod wedi arwain at gynnal y 'Conference on the Cause and Cure of War' am y tro cyntaf, a drefnwyd gan Gymdeithas Pleidlais i Ferched Genedlaethol America - digwyddiad a ailadroddwyd yn flynyddol hyd 1941. Cafodd weledigaeth y menywod o gael sefydliad rhyngwladol i weithio er heddwch a diogelwch byd-eang ei gwireddu pan sylfaenwyd y Cenhedloedd Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd. P'run bynnag, pwy all ddweud faint o bobl a gafodd eu cyffwrdd gan ymgyrch y menywod, yng Nghymru a hefyd yn ystod eu taith heddwch am ddau fis yn yr Unol Daleithiau. Mae eu gweledigaeth, eu dewrder a'u gwaith diflino i hyrwyddo heddwch yn dal i'n hysbrydoli ni heddiw.

Nod y pecyn addysgol hwn yw cyflwyno'r darn anhygoel hwn o dreftadaeth heddwch i genhedlaeth newydd o blant a phobl ifanc, i'w hysbrydoli i ddarganfod mwy ac i weithredu drostynt eu hunain i sicrhau heddwch. Mae'r pecyn yn cynnwys gweithgareddau cychwynnol i gyflwyno'r stori i blant oed cynradd ac uwchradd, ynghyd ag adnoddau ategol. Ceir wedyn awgrymiadau am weithgareddau dilynol, gan gynnwys rhai i helpu plant a phobl ifanc i weithredu drostynt eu hunain er mwyn newid pethau. Yn olaf, ceir rhestr o gyfeiriadau ac adnoddau i gefnogi ymchwil ac archwiliadau pellach.

### Gobeithiwn y cewch fwynhad o'r adnoddau hyn.

# Y Cyd-destun Ehangach
## Heddwch ac Addysg Heddwch

O edrych ar y byd heddiw, mae'n anodd diystyru **pwysigrwydd heddwch** er lles a datblygiad dyn. Mae gwrthdaro yn Wcrain, y Dwyrain Canol ac Affrica yn pwysleisio'n union beth sy'n digwydd pan fydd cymunedau a gwledydd yn rhyfela: bydd mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd naill ai wedi'i atal neu'n anodd; bydd seilwaith yn cael ei ddinistrio, gan adael pobl yn ddigartref ac wedi'u dadleoli; bydd plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Yn y sefyllfaoedd gwaethaf bydd pobl yn dioddef o ddiffyg maeth ac afiechydon yn lledaenu.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi gosod **17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDCau)** y mae pob gwlad ledled y byd yn gweithio tuag atynt erbyn 2030.

Erbyn y dyddiad hwnnw, rydym yn anelu i gael byd lle nad oes yr un plentyn yn llwgu, lle mae gan bawb fynediad at fwyd a dŵr, addysg o ansawdd da a gofal iechyd o safon dda.




Mae'r Nodau hefyd yn anelu i greu cymunedau tecach a mwy cynaliadwy, lle bydd pawb yn cael mynediad at ynni glân fforddiadwy ac yn symud tuag at lefelau defnydd mwy cynaliadwy a chyfrifol. Mae gan heddwch ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r Nodau. Mae a wnelo **Nod Datblygu Cynaliadwy 16** â hyrwyddo a gweithredu Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf, gan gydnabod bod angen i'r rhain fod yn eu lle er mwyn i bobl gael mynediad at anghenion eraill sylfaenol, fel diogelwch, bywyd teuluol, addysg ac iechyd a llesiant o safon dda.

**Mae addysg yn elfen hanfodol er mwyn adeiladu byd mwy heddychlon, cyfiawn a chynaliadwy.**

Mae angen i blant a phobl ifanc feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i ddatrys gwrthdaro mewn ffyrdd cadarnhaol, i ddatblygu dealltwriaeth ac empathi tuag at unigolion a diwylliannau eraill, ac i ddefnyddio meddwl beirniadol a chreadigrwydd i ganfod atebion cynaliadwy i broblemau'r byd. Mae UNESCO newydd gydnabod hyn drwy gyhoeddi Argymhelliad diwygiedig ynghylch Addysg ar gyfer Heddwch, Hawliau Dynol a Datblygu Cynaliadwy. Yng Nghymru, nod ein cwricwlwm yw paratoi disgyblion am yr unfed ganrif ar hugain (21ain) drwy eu helpu i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r Byd.

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (CMRhC) wedi datblygu Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru sy'n helpu ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at addysg heddwch, gan integreiddio hynny i'w hethos a'u dysgu. Mae'r cynllun yn hyblyg, gan alluogi ysgolion i addasu mentrau a gweithgareddau i'w cyd-destun eu hunain, a chynnwys pethau y maent eisoes yn eu gwneud.

Bydd disgyblion yn cael cefnogaeth i ddatblygu sgiliau datrys gwrthdaro a datrys problemau, i edrych yn feirniadol ar eu treftadaeth heddwch eu hunain a chysylltu materion lleol â materion byd-eang. Dylai ysgolion sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun hwn gysylltu â
**Jane Harries, Cydgysylltydd Addysg Heddwch - janeharries@wcia.org.uk**


**Dymunwn yn dda ichi ar eich taith heddwch, a gobeithio y byddwch yn mwynhau'r pecyn hwn!**

# Sut mae'r pecyn wedi'i drefnu:

8 - 14 oed grŵp

Mae'r pecyn hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddysgwyr rhwng 8 ac 14 oed, ac mae'n cynnwys deunyddiau penodol i ddisgyblion Cynradd ac Uwchradd, yn ogystal ag adnoddau cyffredinol. Mae'r gweithgareddau yn y pecyn wedi'u rhannu i'r categorïau canlynol:

1. **Gweithgareddau Rhagarweiniol sydd yn galluogi dysgwyr i archwilio materion a deall cyd-destun hanesyddol Deiseb Heddwch y Menywod.**
2. **Gweithgareddau sy'n 'adrodd stori Deiseb Heddwch y Menywod neu'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddarganfod y stori drostynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys sesiwn un awr cychwynol a Gwasanaeth ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.**
3. **Gweithgareddau yn ymwneud â 'chynefin', sy'n galluogi disgyblion i archwilio cyd-destun daearyddol, hanesyddol, moesol a chrefyddol y ddeiseb, a'i harwyddocâd parhaus heddiw.**
4. **Gweithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n galluogi disgyblion i ymchwilio ymhellach i wahanol agweddau ar y stori, ac archwilio arwyddocâd yr agweddau hynny.**
5. **Gweithgareddau sy'n helpu disgyblion i weithredu ynghylch mater sydd o bwys iddynt, ar ôl cael eu hysbrydoli gan esiampl Deiseb Heddwch y Menywod.**



Rydym wedi rhoi dolenni i adnoddau y gellir eu lawrlwytho ar gyfer pob gweithgaredd. Mae cyfeiriadau wedi'u cynnwys ar ddiwedd y pecyn, gan gynnwys dolen i gyfres o adnoddau trawsgwricwlaidd a gynhyrchwyd gan Ysgol Gynradd Alaw, Rhondda Cynon Taf (Saesneg yn unig).

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cymreig:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn ymwneud yn benodol â Chamau Cynnydd 3 a 4 o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a ganlyn ym **Maes Dysgu'r Dyniaethau**:

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**Cynefin:**
Ceir pwyslais cryf yn yr adnodd hwn ar helpu disgyblion i ddeall cyd-destun Deiseb Heddwch y Menywod 1923-4 yn nhermau eu cymuned leol a'r hyn a oedd ym meddyliau pobl ar y pryd.

Cânt eu hannog i archwilio sut le oedd eu stryd/cymuned ar y pryd, pwy a allai fod wedi cael ei ysgogi i lofnodi'r ddeiseb, a pham.

**Dinasyddion Moesegol, Gwybodus:**
Nod arall yn y pecyn yw ysbrydoli plant a phobl ifanc i ystyried pa gamau y gallen **nhw** eu cymryd i wneud eu cymunedau'n fwy heddychlon, yn seiliedig ar esiampl Deiseb Heddwch y Menywod.

# Cyflwyno'r Stori


## Adnoddau Cynradd



Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund




Adnoddau i'w llwytho i lawr

# Gweithgaredd 1

## Rhoi'r stori at ei gilydd:

Gellir lawrlwytho adnoddau cysylltiedig ar gyfer y gweithgaredd hwn yma:



Mrs Peter Hughes-Griffiths, who conveyed the Welsh Women's Appeal to Count Bernstorff, the German delegate, who was Ambassador to America at the outbreak of the war.—(South Wales News.)


Dywedwch ein bod ni heddiw yn mynd i dreulio ychydig o amser yn darganfod stori arbennig iawn – un a ddigwyddodd yng Nghymru ac America 100 mlynedd yn ôl.

Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai o tua 6 disgybl. Rhowch set o adnoddau i bob grŵp sy'n cynnwys darnau bach o destun a lluniau. (Gweler yr adnoddau i'w lawrlwytho: bydd gan bob grŵp yr un set). Yn gyntaf, gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau i edrych ar un o'r tudalennau a phenderfynu beth sydd yn digwydd, a phryd. Wedyn gall y grŵp gydweithio i benderfynu beth yw trefn y stori.

### Gofynnwch i'r myfyrwyr adrodd yn ôl, a gofyn:

- **Ym mha drefn yr oedden nhw wedi gosod y darnau?**
- **Am beth y mae'r stori?**
- **Pam bod y menywod yn teimlo mor angerddol dros heddwch, a beth oedd eu hamcanion?**

**Trefn y stori yw: 2), 5), 1), 4), 6), 3)**




### Dweud y Stori:

Gallwch nawr ddefnyddio'r testun neu'r sleidiau yn y pecyn hwn i ddweud stori Deiseb Heddwch y Menywod. Gallwch hefyd ddefnyddio'r fideo YouTube hwn: https://youtu.be/0NbftPgPjCM?si=XI58fCnHMsDew8jk

### Bwrdd Stori:

Nawr gofynnwch i bob grŵp greu **bwrdd stori**, gan ddefnyddio darn mawr o bapur neu'r templed a ddarparwyd, er mwyn darlunio stori deiseb heddwch y menywod.




### Myfyrio:

- **Pa ran o'r stori oeddech chi'n ei hoffi orau?**
- **Sut mae'n gwneud ichi deimlo?**
- **Pa gwestiynau sydd gennych chi ar ôl i'w hateb?**
- **Beth ydych chi'n meddwl y gallech chi eu gwneud, fel plant yng Nghymru, i greu byd mwy heddychlon?**


Ar ôl cyflwyno'r stori, gallwch ddewis o blith y gweithgareddau dilynol yn y pecyn hwn i archwilio'r stori ymhellach. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr hefyd yn cael amser i feddwl pa gamau yr hoffent eu cymryd i weithio tuag at fyd sy'n fwy heddychlon a chynaliadwy.

Gellir dod o hyd i adnoddau ategol ar dudalennau 19 – 21 y pecyn hwn.

# Gweithgaredd 2

## Gwasanaeth (neu weithgaredd rhagarweiniol i'r dosbarth cyfan):

Gellir cael hyd i sleidiau PowerPoint i gyd-fynd â'r gweithgaredd yma, yn ogystal â fersiwn o'r stori wedi'i haddasu ar gyfer plant oed cynradd.




### 1 Sleid 2: Gofynnwch i'r plant –

- Pwy ydych chi'n ei (h)edmygu a pham?
- Beth yw ei r/rhinweddau?

Gofynnwch am atebion.

### 2 Sleid 3: Adroddwch hanes Deiseb Heddwch y Menywod

### 3 Sleid 4: Gofynnwch i'r plant beth yw eu hymateb:

- Beth oedd yn sefyll allan i chi am y stori hon?
- Beth ydych chi'n meddwl wnaeth helpu'r menywod i gynllunio a chyflawni prosiect mor uchelgeisiol?
- Beth ydych chi'n meddwl allai fod wedi bod yn anodd iddyn nhw?

### 4 Beth allwn ni i gyd ei wneud er mwyn cael heddwch?

Cyflwynwch rai sleidiau'n dangos yr hyn y mae plant wedi'i wneud, ac yn ei wneud, er mwyn cael heddwch:

- **Sleid 5: Dywedwch wrth bobl eraill am Neges Heddwch y Menywod**
  Dyma enghraifft o ddisgyblion Ysgol Gynradd Alaw, Rhondda Cynon Taf, a edrychodd ar Ddeiseb Heddwch y Menywod a gwneud gweithgareddau'n gysylltiedig â hynny (fideo wedi'i mewnblannu yn y sleid hon neu ar gael drwy'r ddolen ganlynol): www.youtube.com/watch?v=oMKF6ILJRPY
- **Sleid 6: Enghreifftiau o weithgareddau o amgylch Cymru:**
  Creu gardd heddwch, cefnogi dioddefwyr rhyfel, ymgyrch gwrth-fwlio neu wrth-hiliaeth, cyfryngu rhwng cyfoedion, dod yn Ysgol Heddwch;
- **Sleid 7: Dysgu am Heddychwyr:**
  ee. Heddychwyr o Gymru: Betty Campbell, Waldo Williams, Menywod Greenham; Enghreifftiau rhyngwladol: Sadako a'r fil o garanod; Malala Yousafzai
- **Sleid 8: Beth fydden nhw'n hoffi ei wneud er mwyn cael heddwch?**
  Rhannwch syniadau a dweud y byddant yn cael cyfleoedd yn eu dosbarthiadau i ddysgu mwy am Ddeiseb Heddwch y Menywod.

### 5 Sleid 9: Cerddoriaeth

Gallwch orffen y gwasanaeth gyda darn priodol o gerddoriaeth wrth i'r plant wneud rhesi i fynd allan (ee, 'Heddwch ar Ddaear Lawr' ('Let there be Peace on Earth'): www.youtube.com/watch?v=0BTuNxCd_iQ **Geiriau 'Heddwch ar Ddaear Lawr':**

*'Heddwch ar ddaear lawr,*
*gan ddechrau'n fy nghalon i,*
*heddwch ar ddaear lawr,*
*yr hedd a fwriadwyd i ni;*

*a Duw'n Dad trugarog,*
*brodyr oll ŷm ni,*
*cerddwn oll gyda'n gilydd,*
*mewn hedd a harmoni*

*Dechrau'n fy nghalon i,*
*a dechrau y foment hon,*
*ar hyd fy nhaith drwy'r byd,*
*rwy'n addo yn ddwys a llon*

*i greu bob munud*
*a byw bob munud*
*mewn hedd a harmoni*
*heddwch ar ddaear lawr,*
*gan ddechrau'n fy nghalon i'*

# Cyflwyno'r Stori

## Adnoddau Uwchradd




Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

# Gweithgaredd 1

## Sgwrs Dawel (Darganfod ac archwilio'r Stori)

Gellir lawrlwytho adnoddau cysylltiedig ar gyfer y gweithgaredd hwn yma.
Sylwer y gall fod yn ddefnyddiol gwneud y Gweithgareddau Ategol gyda'r disgyblion gyntaf er mwyn deall iaith yr Apêl.




Dywedwch wrth y myfyrwyr y byddant yn treulio peth amser yn dadorchuddio ac yn archwilio darn rhyfeddol o dreftadaeth heddwch Cymru. Defnyddiwch dechneg y **Sgwrs Dawel** i wneud hyn. Mantais y dechneg hon yw ei bod yn annog pawb i gymryd rhan, gan gynnwys myfyrwyr sy'n dawelach ac yn fwy myfyriol.

Bydd angen yr ysgogiadau arnoch, sydd ar gael i'w lawrlwytho yma. (Ceir 7 ysgogiad, felly gallwch ddewis llai, yn dibynnu ar faint y grŵp).

Dylid glynu pob ysgogiad (testun / llun) a ddefnyddir yng nghanol dalen bapur ar y siart troi, gan adael digonedd o le i sylwadau a chwestiynau. Bydd angen marciwr/pin ffelt siart troi hefyd i bob myfyriwr - gwahanol liwiau os oes modd. Gofynnwch i'r myfyrwyr ffurfio grwpiau bychain (o 4-5 o bobl).

1. **Egluro'r gweithgaredd:**
Eglurwch eich bod, mewn munud, yn mynd i roi testun neu lun i bob grŵp edrych arno. Bydd dwy ran gyntaf y gweithgaredd a wneir ganddynt wedyn yn cael eu cwblhau mewn tawelwch, gyda'r holl gyfathrebu'n digwydd mewn ysgrifen. Dywedwch y bydd amser i siarad a thrafod yn nes ymlaen yn y gweithgaredd.

2. **Rhoi sylwadau ar eu hysgogiadau:**
Bydd pob grŵp nawr yn derbyn ysgogiad ar ddalen o bapur siart troi a digon o binnau ffelt i bawb yn y grŵp. Dylent ddarllen y testun / edrych ar y llun mewn tawelwch. Ar ôl gwneud hyn, gallant ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau ar bapur y siart troi o amgylch y testun. Gallant hefyd danlinellu darnau o'r testun ac ateb cwestiynau'r naill a'r llall mewn ysgrifen. Dylai hyn gymryd tua 15 munud. Mae 'na gwestiynau ar bob ysgogiad yn y Gweithgareddau Ategol, os ydy hyn yn ddefnyddiol.

3. **Ymweld â'r ysgogiadau eraill:**
Gan aros yn dawel, bydd myfyrwyr yn mynd â'u pin ffelt ac yn cerdded o amgylch yr ysgogiadau eraill. Gallant wneud sylwadau neu ysgrifennu cwestiynau ar bapurau eraill y siart droi. Caniatewch 10 – 15 munud arall ar gyfer yr adran hon.

4. **Sgwrs:**
Bydd y myfyrwyr nawr yn dychwelyd i'w hysgogiad gwreiddiol ac yn cynnal sgwrs. Gallant siarad yn rhydd am y testun/llun a'i arwyddocâd, a rhannu unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd ganddynt o edrych ar yr ysgogiadau eraill a'r hyn a ysgrifennodd myfyrwyr eraill.



5. **Prosesu'r ymarfer:**
Yn y grŵp mwy, trafodwch gynnwys yr ysgogiadau a'r ymarfer yn ei gyfanrwydd. Am beth y mae'r stori hon, a pham ei bod hi'n arwyddocaol?
   - Sut mae'n berthnasol i heddiw?
   - Oes ganddynt gwestiynau sy'n dal heb eu hateb?
   - Sut oedden nhw'n teimlo'n gwneud y darnau cyntaf o'r ymarfer hwn mewn tawelwch?
   - A oedd hyn o gymorth neu ddim?
   - Beth wnaeth y distawrwydd eu galluogi nhw i'w wneud / eu hatal nhw rhag gwneud?

Ar ddiwedd yr ymarfer hwn, dylai fod gan fyfyrwyr ddealltwriaeth eithaf da o Ddeiseb Heddwch y Menywod. Llenwch unrhyw fylchau a allai fod ganddynt o hyd (Cewch hyd i'r stori yma, a fersiwn fyrrach yma).

# Gweithgaredd 2

## Gwasanaeth (neu weithgaredd rhagarweiniol i'r dosbarth cyfan):

Ceir hyd i sleidiau PowerPoint cysylltiedig, hanes y Ddeiseb, yn ogystal â fersiwn symlach o’r stori yma.

**Sleidiau 2 a 3:**
Dangoswch y ddwy sleid gyntaf ac archwilio'r cwestiwn 'Pam mae heddwch yn bwysig?' Mae byw mewn cymdeithas heddychlon a sefydlog yn galluogi pobl i gyflawni anghenion ac arfer hawliau sy'n hanfodol i iechyd, llesiant a datblygiad dynol.

Mae cymunedau heddychlon yn fwy tebygol o fod yn fwy cydweithredol a theg.



Adnoddau i'w llwytho i lawr

**Sleid 4:**
Gosodwch y llwyfan gan adrodd hanes Deiseb Heddwch y Menywod.

**Sleid 5:**
**Amser i fyfyrio.**
Gofynnwch i’r myfyrwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth wnaeth yr argraff fwyaf arnoch chi yn y stori hon?
- Beth ydych chi'n meddwl wnaeth alluogi'r menywod i gynllunio a gweithredu prosiect mor uchelgeisiol?
- Pa rwystrau ydych chi'n meddwl oedd yn rhaid iddynt eu goresgyn?

**Sleid 6:**
Archwiliwch y dulliau a'r adnoddau a oedd gan y menywod i gynllunio a chynnal eu hymgyrch.

- Beth yw manteision ac anfanteision y rhain, gan gofio'r cyd-destun ar y pryd?
- Beth am heddiw?
- Pa ddulliau ac adnoddau sydd ar gael i ni er mwyn cynllunio, lansio a chynnal ymgyrch?

**Sleid 7 - 8:**
**Felly beth allwn ni ei wneud i adeiladu cymdeithas fwy heddychlon a chynaliadwy o'r gwaelod i fyny?**

- **Sleid 7: Enghreifftiau o weithgareddau o amgylch Cymru:** creu gardd heddwch, cefnogi dioddefwyr rhyfel, ymgyrch gwrth-fwlio neu wrth-hiliaeth, cyfryngu rhwng cyfoedion, dod yn Ysgol Heddwch;
- **Sleid 8: Dysgu am Heddychwyr:** e.g. Heddychwyr o Gymru: Betty Campbell, Waldo Williams, Menywod Greenham; Enghreifftiau rhyngwladol: Sadako a'r fil o garanod; Malala Yousafzai

**Sleid 9:**
Cyflwynwch rai modelau i'w helpu i gynllunio a gweithredu prosiect yn llwyddiannus: ee grid i'w helpu i feddwl am yr hyn sy'n hawdd / anodd i'w wneud a'r hyn sy'n cael effaith isel / uchel; taflen cynllunio prosiect (hefyd ar gael fel taflen i'w rhannu yma).




Os bydd amser yn caniatáu, bydd y myfyrwyr nawr yn gweithio mewn grwpiau gyda siart troi a phinnau ffelt i fapio rhywbeth yr hoffen nhw ei wneud, yr hyn y maen nhw'n anelu i'w gyflawni, sut y byddant yn gwneud hynny a phwy y mae angen iddynt eu cynnwys. Gallant wedyn rannu ac edrych ar syniadau ei gilydd. Un myfyriwr i aros gyda'i siart droi i gyflwyno'i brosiect.

**Sleid 10:**
Anogwch y myfyrwyr i fynd i ffwrdd a datblygu eu prosiectau.

# Gweithgareddau Dilynol
## (Trawsgwricwlaidd)*

*Sylwer bod amrywiaeth o adnoddau trawsgwricwlaidd wedi'u rhannu'n garedig gan Ysgol Gynradd Alaw, Trealaw, Rhondda Cynon Taf, a'u bod ar gael [yma](#).



Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund

# Cynefin

## Nodau:

- Bod disgyblion yn deall sut mae eu hardal a'u cymuned leol wedi newid dros y can mlynedd diwethaf.
- Cael dealltwriaeth well o gyd-destun cymdeithas yng Nghymru yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, cymhelliant y menywod a drefnodd y Ddeiseb Heddwch a'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt, o gymharu â'r modd y gallen ni gynnal ymgyrch heddiw.
- Canfod pwy a lofnododd y ddeiseb, yn seiliedig ar wybodaeth o gofnodion a dogfennau hanesyddol.

## Gweithgareddau:

### 1 Gofynnwch i'r disgyblion ystyried beth sy'n gwneud i'w cartref deimlo fel cartref?

Sut le yw'r gymuned y maen nhw'n byw ynddi a beth sy'n ei gwneud yn arbennig? (Myfyrdod unigol)


### 2 Nawr dychmygwch sut le oedd eich cymuned yn y 1920au cynnar.

- Sut olwg oedd ar eich stryd? Beth oedd yr un peth / beth oedd yn wahanol?
- Beth am eich teulu? Oedden nhw'n byw yn agos atoch, neu ar wasgar?
- Sut fyddai pobl yn teithio o'r naill le i'r llall (trafnidiaeth)? Sut oedden nhw'n cyfathrebu?
- Beth oedd rôl merched mewn cymdeithas? Beth oedd rôl plant?
- Sut oedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru a'r gwahanol rolau yr oedd pobl yn eu chwarae ynddynt?

**Gallai rhai lluniau fod o gymorth yma.**
Gall disgyblion weld rhai ohonynt yma a thrafod eu hatebion mewn grwpiau bach - wedyn adrodd yn ôl.

### 3 Nawr gofynnwch i'r grwpiau feddwl am y menywod a gasglodd y llofnodion ar gyfer Deiseb Heddwch y Menywod:

- Pwy oedden nhw, a beth oedd yn eu hysgogi?
- Pa mor hawdd ydych chi'n meddwl y byddai wedi bod i ferched wneud hyn yn y 1920au?
- Pwy oedd eu cynulleidfa (pwy oedden nhw'n bwriadu eu perswadio i lofnodi)?
- Ydych chi'n meddwl y byddai eu gwaith wedi bod yn anodd neu'n hawdd? Pam?




### 4 Nesaf gofynnwch i'r disgyblion ystyried y dulliau a ddefnyddiwyd.

Dros 6 mis, casglodd y merched 390,296 o lofnodion - nifer rhyfeddol, gan fod hyn yn gyfystyr â 30% o'r holl ferched yng Nghymru ar y pryd!


- Sut ydych chi'n meddwl y gwnaethant berswadio pobl i gydweithio er mwyn gweithredu?
- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt?
- Pa gymorth oedd ei angen arnynt?
- Sut ydych chi'n meddwl y gwnaethant roi cyhoeddusrwydd i'w hymgyrch?
- Pa ddulliau fydden ni'n eu defnyddio heddiw, a sut fydden ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn yr oeddem yn ei wneud a chael cynifer o gefnogwyr ag sy'n bosibl? (Gweler y gweithgareddau pellach ar ddulliau i'w defnyddio yn Adran 6 yr adnodd hwn - 'Creu Newid er mwyn Heddwch')

**Gallai'r disgyblion greu 'map meddwl' o'u hatebion, neu greu darlun 'ddoe a heddiw', gan nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd ym 1924, a'r rhai y gallwn eu defnyddio heddiw.**

## 5 Ymchwil: Sut i ddarganfod mwy drwy edrych ar y ddeiseb ddigidol ac adnoddau hanesyddol eraill.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymgymryd â phrosiect mawr i ddigideiddio pob tudalen o’r ddeiseb, gan ddefnyddio grwpiau o wirfoddolwyr i ‘drawsgrifio’ yr enwau (yn darllen yr enwau sydd wedi’u hysgrifennu ar luniau o'r tudalennau, a'u rhoi mewn cronfa ddata).

Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Gorffennaf 2024 – blwyddyn canmlwyddiant y ddeiseb. Golyga hyn y gall unrhyw un chwilio am enw neu gyfeiriad penodol yn y ddeiseb, a darganfod a wnaeth perthynas iddynt neu rywun sy'n byw yn eu tŷ neu eu cymuned, ei llofnodi.




Gallwch ddefnyddio'r catalog a'r ddeiseb i gynnal chwiliad.
**Dyma sut:**

1. **Ewch i: [Deiseb Heddwch Menywod Cymru - Archifau a Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru](). Byddwch yn cyrraedd prif gatalog y llyfrgell.**
2. **Defnyddiwch y chwiliadur i chwilio am bentref, tref neu ardal benodol.**
3. **Gwnewch nodyn o rif y bocs a'r dudalen (mae'n bosib y bydd nifer ohonynt!)**
4. **Yna ewch i: [Deiseb Heddwch Menywod Cymru - Llyfrgell Genedlaethol Cymru](), i'r adran 'mynediad at y ddeiseb heddwch'. Bydd yr adran hon yn dangos 'syllwr tudalen' ichi lle gallwch weld pob tudalen sydd wedi'i digideiddio.**
5. **Ewch i'r rhif bocs a nodwyd gennych a defnyddio tudalen 'Mynegai' y cynnwys i ganfod eich bocs.**



### Rhai cwestiynau:

- Gofynnwch i'ch teulu: ydyn nhw'n gwybod enwau merched o fewn y teulu a oedd yn byw yng Nghymru ar y pryd? (cofiwch fod angen iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn i fod wedi llofnodi). Efallai y gallwch chi greu coeden deulu i ddeall pwy oedd aelodau pob cenhedlaeth.
- Ymhle yr oedden nhw'n byw? A oes unrhyw hanesion amdanynt y gall eich teulu eu rhannu? Pa fath o bobl oedden nhw?
- Allwch chi gael hyd i'ch tŷ neu eich stryd, neu stryd rydych chi'n ei adnabod o'ch tref? Faint o bobl ar y stryd honno a wnaeth lofnodi? A oes patrwm (a wnaeth un trefnydd alw heibio pob tŷ, neu ambell gyfeiriad yn unig?)

### Adnoddau ychwanegol:

- Cewch fynediad am ddim i gyfrifiad 1921 mewn archifau lleol, a allai eich helpu i baru enwau a lleoliadau. Cewch yr un wybodaeth drwy findmypast.co.uk, ond bydd yn rhaid talu ffi.
- Bydd eich archifdy lleol yn fwy na pharod i'ch helpu i ddarganfod mwy; cewch hyd i'ch gwasanaeth archifo lleol, a'r manylion cyswllt yma.
- Efallai y bydd gan Casgliad y Werin Cymru luniau o'ch ardal chi: casgliadywerin.cymru

# Gweithgareddau Trawsgwricwlaidd Pellach:

## Drama / Darllen / Ysgrifennu creadigol:

### Nodau

Helpu disgyblion i'w rhoi eu hunain yn esgidiau'r menywod a oedd yn ymwneud â´r gwaith o gasglu llofnodion ar gyfer y ddeiseb - eu cymhelliant, eu gobeithion a'u pryderon.

### Gweithgareddau

1. **Meddwl – Paru - Rhannu:** Gofynnwch i’r disgyblion ddychmygu mai nhw oedd un o’r merched oedd yn perswadio pobl i lofnodi'r ddeiseb yng Nghymru. Beth wnaeth eich ysbrydoli i wneud hyn? Myfyriwch, yna rhannu eich meddyliau â phartner, ac wedyn â gweddill y dosbarth.

2. **Tasg grŵp: curo drysau er mwyn heddwch:**
Mewn grwpiau bach, gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol:
   - Sut brofiad yw mynd o ddrws i ddrws yn siarad â phobl?
   - Oes gennych chi unrhyw amheuon a fyddech chi'n llwyddo i argyhoeddi pobl i lofnodi'r ddeiseb?
   - Sut mae cyfleu eich achos?
   - Ydych chi'n wynebu unrhyw heriau?
     (Meddyliwch am y cyd-destun a rôl menywod mewn cymdeithas ar y pryd...)

   Y grwpiau nawr i greu sgets a'i actio. Gallent ymarfer gwahanol ymatebion gan rai a atebodd y drws.



3. **Myfyrdod dosbarth cyfan:** Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am y bobl a gasglodd lofnodion ar gyfer y ddeiseb? Pa rinweddau oedd eu hangen arnynt?



## Nodau

- Defnyddio gwybodaeth ar wefan i ddeall digwyddiad hanesyddol, ei gyd-destun a'i arwyddocâd.
- Darllen a deall cofnodion dyddiadur a ysgrifennwyd ym 1924

## Gweithgareddau

1. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau i ddarllen am stori arbennig iawn, drwy ddefnyddio gwefan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Gallant brofi eu dealltwriaeth drwy lenwi un o'r taflenni ymchwil a rannwyd gan Ysgol Gynradd Alaw.
2. Myfyrdod grŵp: beth yw eu barn am y stori? Beth wnaeth eu taro amdani?
3. Rhannwch adrannau o ddyddiadur Annie i ddisgyblion unigol neu barau. Gofynnwch iddyn nhw benderfynu:
   - Ble maen nhw'n meddwl y mae hyn yn digwydd?
   - Beth sy'n digwydd yn y darn hwn?
   - Beth sy'n eu taro fwyaf amdano?
   - Beth yw eu hargraff o'r ysgrifennydd ac o eraill y mae'n cyfeirio atyn nhw yn y darn?
4. Gallai'r disgyblion wedyn rannu eu hargraffiadau a defnyddio'r rhain i gael ymdeimlad o daith y merched a'u profiadau.

### Adnoddau

Tudalen gwefan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar Ddeiseb Heddwch y Menywod

Adnoddau Alaw (gan gynnwys taflenni sy'n cefnogi ymchwil yn seiliedig ar ddyddiadur Annie)

Dyddiadur Annie (trawsgrifiad)

## Nodau

- Ysgrifennu cofnod dyddiadur yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd, gan ddefnyddio dychymyg ac empathi.

## Gweithgareddau

Gofynnwch i'ch disgyblion ddychmygu eu bod ar y daith i America gydag Annie – neu efallai mai nhw yw un o'r bobl sy'n cwrdd â hi ar ei thaith.....

Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu cofnod dyddiadur gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol:

- Sut deimlad yw bod ar yr ymweliad?
- Ble wyt ti? Â phwy wyt ti'n cwrdd?
- Disgrifiad rai o'r pethau yr wyt ti'n eu gweld a'u gwneud, a sut maen nhw'n wahanol i adref.



## Y Dyniaethau:

Gall myfyrwyr ddysgu mwy am drais a dulliau di-drais, am ymgyrchoedd di-drais llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau hanesyddol a daearyddol a sut i gynllunio'u hymgyrch eu hunain i greu newid er gwell drwy fynd drwy'r pecyn 'Ymgyrchu dros Newid yn Ddi-drais'.

Mae'r pecyn hwn yn helpu myfyrwyr (8 – 13 oed) i edrych ar ystyr trais a dulliau di-drais, ac i ddysgu am, a deall ymgyrchoedd o Gymru, y DU ac yn fyd-eang lle mae ymgyrchoedd di-drais wedi sicrhau newid parhaol. Mae'r pecyn ar gael yn ddwyieithog ac yn cynnwys 11 o astudiaethau achos o Gymru yn rhychwantu'r ganrif ddiwethaf, sy'n cyfleu'n ôl at agwedd y cwricwlwm sy'n ymwneud â Chynefin.

# Hanes:

## Nodau

Deall y cyd-destun hanesyddol y cafodd Deiseb Heddwch y Menywod ei chreu ynddo.

## Gweithgareddau

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a rhowch erthygl/adnodd penodol i bob grŵp edrych arno'n fanylach. Dyma rai cwestiynau y gallent eu hystyried:

- Sut effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymdeithas yng Nghymru?
- Pa ffactorau eraill a effeithiodd ar gymdeithas yng Nghymru'r 1920au a'r 30au?
- Beth oedd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru? Beth oedd y Diwrnodiau Cennin Pedr?
- Pam bod cymaint o frwdfrydedd o blaid heddwch rhyngwladol yn y 1920au? A oedd hyn wedi newid erbyn y 1930au? Os felly, pam?

### Adnoddau

Gweler 'Gosod y Cyd-destun – Adnoddau Hanesyddol' yn adran gyfeirio'r pecyn hwn

Adnoddau yn adran 'Creu Newid er mwyn Heddwch' yr adnodd hwn

## Nodau

Deall hanes o safbwyntiau gwahanol.

Deall digwyddiadau hanesyddol yn eu cyd-destun ehangach.

## Gweithgareddau

Nawr adroddwch wrth y disgyblion hanes Deiseb Heddwch y Menywod a'u taith i America yn 1924.

Ar ôl hynny gallwch gynnal trafodaeth dosbarth:

- Oedd y merched a drefnodd y ddeiseb yn realistig neu'n rhy optimistaidd?
- A allai hanes fod wedi bod yn wahanol pe bai America wedi ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd?

Gallwch egluro na chafodd rhai o ddyheadau'r merched eu gwireddu tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd – ee sefydlu'r Cenhedloedd Unedig – felly gellid ystyried eu bod o flaen eu hamser - yn plannu'r hadau am ddyfodol mwy gobeithiol a chydweithredol.

## Nodau

Deall arwyddocâd digwyddiadau hanesyddol heddiw.

## Gweithgareddau



Yn dilyn y gweithgareddau hyn, gallwch archwilio arwyddocâd ymgyrch Deiseb Heddwch y Menywod heddiw. Sut olwg fyddai ar ddeiseb gyfoes?

- Beth fyddai'n anelu i'w gyflawni?
- Pwy fyddai ei chynulleidfa allweddol?
- Pa ddulliau y byddai'n eu defnyddio i ennill cefnogaeth a chyhoeddusrwydd?
- Beth fyddai ystyr llwyddo?

Gallai'r disgyblion drafod y cwestiynau hyn mewn parau neu grwpiau, yna rhannu eu meddyliau â gweddill y dosbarth. Gallent wedyn gymryd rhan yn y gweithgareddau yn yr adran 'Creu Newid er mwyn Heddwch' yn yr adnodd hwn i weithio ar eu hymgyrch eu hunain, a'i lansio.

# Daearyddiaeth:

## Nodau

- Deall taith y merched yn 1924 a beth oedd ystyr hynny yn ddaearyddol.
- Cymharu teithio yn y 1920au â theithio modern.

## Gweithgareddau

Gofynnwch i'r plant feddwl am daith (10 diwrnod o hyd) y merched o Lerpwl i Efrog Newydd) ac ar draws America ac yn ôl. Gallant weld y llwybr yma: [www.wcia.org.uk/cy/academiheddwch/womens-centenary-timeline/](www.wcia.org.uk/cy/academiheddwch/womens-centenary-timeline/) a hefyd darllen disgrifiadau yn [nyddiadur Annie](nyddiadur Annie).


Rhai cwestiynau i'w hystyried:

- Sut wnaethon nhw deithio?
- Pa fath o dir fydden nhw wedi'i groesi, gan gofio mai mis Chwefror oedd hi? (Ceir rhai disgrifiadau yn nyddiadur Annie).
- Sut fyddai'r daith yn wahanol heddiw?
- Sut ydych chi'n meddwl y bydd cymunedau yn yr UD wedi newid rhwng y cyfnod hwnnw a heddiw?

**Adnoddau**
Gweler adnoddau Ysgol Gynradd Alaw [yma](yma), yn arbennig:
- Plotio'r daith
- Cyfrifo'r pellter
- Efrog Newydd y 1920au










## Nodau

- Deall beth sy'n ysgogi pobl i anturio a sut mae'n teimlo i fynd ar daith sy'n eich gwthio i'r entrychion.

**Adnoddau**
Adnodd Ysgol Gynradd Alaw ['Dyddiadur Anturiaethwr'](Dyddiadur Anturiaethwr)

## Gweithgareddau

Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar gofnodion dyddiadur Annie, a thrafod:

- Beth wnaeth ei hysgogi i gwblhau'r daith?
- Sut oedd hi'n teimlo ar adegau yn ystod y daith (yn emosiynol, yn gorfforol....)

Gallant gymharu hyn ag adroddiadau gan anturiaethwyr eraill, wedyn ysgrifennu cofnod o'u dyddiadur eu hunain fel anturiaethwr.

# Creu Newid er mwyn Heddwch

## Cynllunio eich prosiect eich hun ar gyfer heddwch




Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund

# Cam 1

## Penderfynu beth rydych chi am ei wneud:



Oak Chest (built to the design of Mr. J. A. Hallam) in which the Signature Forms were conveyed to America
The Oak Chest is now in the National Museum, Washington

Weithiau mae'r problemau o flaen y byd yn teimlo mor fawr fel ei bod hi'n anodd gwybod beth allwn ni ei wneud. Roedd hyn hefyd yn wir, fodd bynnag, am y merched a luniodd Ddeiseb Heddwch 1923 ac a aeth â hi yr holl ffordd i ferched yn America - ond aethant ati i wneud hynny beth bynnag! Gallwn bob amser wneud **rhywbeth** i wneud y byd yn lle mwy heddychlon a chynaliadwy!

### Cawod syniadau:

Dyma ffordd hawdd o benderfynu beth yr hoffai eich dosbarth/grŵp weithredu yn ei gylch. I ddechrau, nodwch syniadau pawb ar siart troi.

Ar ôl gwneud hyn, rhowch ddot lliw gludiog neu bensil lliw i bawb yn y dosbarth. Gofynnwch i'r disgyblion o bob bwrdd ddod at y siart troi a rhoi dot yn erbyn eu dewis 1af, a'u 2il a'u 3ydd dewis.
Ar ôl i bawb bleidleisio, dylid datgelu'r syniadau mwyaf poblogaidd. Gall disgyblion nawr weithio mewn grwpiau ar un o'r testunau a ddewiswyd.


### Diemwnt o Flaenoriaethau:

Dechreuwch mewn grwpiau bach yn cynhyrchu syniadau am faterion sy'n gysylltiedig â heddwch yr hoffech weithredu yn eu cylch, ac ysgrifennu pob syniad yn glir ar gerdyn. Beth hoffech chi ei newid yn eich ysgol / yn y gymuned / mewn cymdeithas? Ceisiwch fod mor fanwl ag sy'n bosibl (ee, rhoi stop ar ddadlau a chweryla ar yr iard chwarae; lleihau bwlio; gwella ailgylchu).

Gall myfyrwyr uwchradd ddewis materion ehangach fel agwedd ar newid hinsawdd, ceiswyr lloches, neu fater heddwch rydych chi'n angerddol yn ei gylch (arfau niwclear, sut i atal rhyfel cyfredol) neu rywbeth sy'n effeithio ar eich ardal leol (ee, mynediad cyfartal at wasanaethau).

Edrychwch ar y cardiau rydych chi wedi'u llunio a phenderfynu:

- Beth yw'r mater **pwysicaf** i chi?
- Pa ddau fater fyddai'n dod nesaf?
- Pa dri mater fyddai yn y canol?
- Pa ddau fater fyddech chi'n eu gosod yn y safle nesaf?
- Pa fater fyddai'n 9fed?






Dylai'r dull hwn eich helpu i benderfynu ar fater neu faterion yr hoffech weithredu yn eu cylch. **Ceisiwch sicrhau ffocws heddwch i'r materion rydych chi'n eu dewis**. Ceir disgrifiad o'r Gweithgaredd Diemwnt o Flaenoriaethau ar dudalen 6 y pecyn cymorth **'Creu Newid er mwyn Heddwch'** ar Hwb, yn ogystal â chardiau materion enghreifftiol yma. Gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol i chi.

# Cam 2

## Pa ddulliau fyddwn ni'n eu defnyddio?

Meddyliwch am y merched a gynlluniodd ac a drefnodd ddeiseb 1923. Pa adnoddau oedd ar gael iddynt? Sut wnaethon nhw greu ymgyrch effeithiol ledled Cymru a enillodd gymaint o gefnogaeth? Nid oedd ganddynt y rhyngrwyd na'r cyfryngau cymdeithasol. Byddai rhai ohonynt wedi gallu defnyddio ffôn, ond mae'n rhaid eu bod wedi dibynnu i raddau helaeth ar rwydwaith o ganghennau Undeb Cynghrair y Cenhedloedd ledled Cymru.

(Roedd yna **1,014 o grwpiau cymunedol ledled Cymru ac ynddynt 61,262 o aelodau** a oedd yn ymroi'n weithgar i weithgareddau ymgyrchu'r Gynghrair yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd). Efallai fod negeseuon hefyd wedi cael eu pasio o'r naill deulu i'r nesaf, neu drwy rwydweithiau cymunedol eraill fel y capeli. Roedd hyn o bwys i ddigon o bobl mewn cymunedau ledled Cymru fel eu bod yn mynd allan i daro ar ddrysau a gofyn i bobl lofnodi'r ddeiseb!

Ystyriwch **pa ddulliau** y gallwch chi eu defnyddio i greu ymgyrch lwyddiannus, a llunio rhestr. Gall hyn gynnwys rhai o'r canlynol, ymhlith eraill:

- Ysgrifennu erthygl neu blog
- Defnyddio hysbysfyrddau eich ysgol
- Cyflwyno'ch achos gerbron y cyngor ysgol
- Gofyn am gael cynnal gwasanaeth ysgol
- Defnyddio eich gorsaf radio ysgol / gymunedol, os oes gennych chi un
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Codi arian
- Ysgrifennu at, neu wneud cyflwyniad gerbron eich llywodraethwyr ysgol / cynghorwyr lleol / Aelod Senedd Cymru / y Deyrnas Unedig.
- Trefnu ymgyrch
- Ymuno â grŵp heddwch neu amgylcheddol lleol
- Ymuno â phrotest
- Llunio deiseb a gofyn i eraill ei llofnodi...



Cofiwch, os ydych chi'n gweithio fel tîm, efallai y bydd pobl yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud gwahanol fathau o weithgareddau. Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo'n hapus, er enghraifft, yn ysgrifennu at eu Haelod o Senedd Cymru neu'r Deyrnas Unedig, neu'n ymuno â phrotest, tra bydd eraill yn hapusach yn gweithio ar y cyfryngau cymdeithasol neu'n llunio blog. Manteisiwch ar gryfderau pawb a defnyddio sgiliau amrywiol y grŵp! Un ffordd effeithiol o ganfod sut y gallwch chi gydweithio fel grŵp i greu newid yw drwy gynnal **Continwwm Gwerthoedd**, fel a ganlyn:

1. Dychmygwch fod llinell ddychmygol ar draws eich ystafell ddosbarth. Mae un pen yn golygu 'Rwy'n hapus i wneud hynny'; mae'r pen arall yn golygu 'Dydw i ddim am wneud hynny o gwbl'.

2. Darllenwch yn uchel weithred (o'ch rhestr o ddulliau) y gallwch ei gyflawni'n unigol neu fel rhan o'r grŵp i greu newid. Gofynnwch i bobl feddwl am bob un, wedyn eu lleoli eu hunain ar hyd y llinell yn ôl y graddau y maent yn meddwl y gallent wneud hynny. Gwnewch hyn mewn tawelwch a dywedwch wrth bobl am beidio â phoeni am safle eu ffrindiau. Nid oes ateb 'cywir' nac 'anghywir'. Mae gan bob un ohonom sgiliau gwahanol, a phethau rydym yn gyfforddus, a heb fod yn gyfforddus yn eu gwneud.


3. Cyn gynted ag y bydd pawb wedi symud i'w safle ar gyfer gweithred arbennig, gallwch gynnal sgwrs sydyn ynghylch pam eu bod wedi dewis y safle hwnnw. Beth sy'n hawdd neu'n heriol am y weithred dan sylw? Beth allai fod angen ichi eu hystyried? Pa gamau gweithredu sy'n fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus a'ch helpu i gyrraedd y nod?

Dyma ffordd dda o'ch helpu i ddeall beth y gallwch ei wneud i greu newid, yn unigol ac ar y cyd ag eraill, a sut i ddefnyddio'r cryfderau yn eich grŵp.

### Hawdd / Anodd i'w wneud - Effaith Uchel / Isel:

Efallai yr hoffech chi hefyd ystyried y grid Effaith uchel / Effaith isel; Anodd i'w wneud / Hawdd i'w wneud isod wrth benderfynu fel grŵp pa gamau i'w cymryd.

| | Hawdd i'w wneud | Anodd i'w wneud |
|---|---|---|
| **Effaith uchel** | • Cynnal gwasanaeth<br>• Gwneud ffilm<br>• Trefnu cystadleuaeth ffoto<br>• Cysylltu â busnes / elusen | • Perswadio gwleidyddion i newid eu polisïau<br>• Perswadio busnesau i newid eu harferion |
| **Effaith isel** (yn y lle cyntaf) | • Siarad â phobl<br>• Dosbarthu pamffledi<br>• Gweithio gydag athrawon i<br>• ddatblygu / cynllunio gwaith | • Mynd yn bryderus iawn am y mater ac aros i rywun arall weithredu |




# Cam 3 - Gweithredu dros Heddwch!

## Ysgrifennu Deiseb Heddwch gyfoes.

Gallwch - gallwch **chi** ysgrifennu deiseb hefyd! Mae'n dal i fod yn ffordd wych o rannu neges ac ysbrydoli eraill i greu newid. Nod yr arweiniad bras isod yw eich tywys drwy'r broses o ysgrifennu a rhannu eich deiseb heddwch eich hun gam wrth gam.

### 1 Dewis rhywbeth sy'n bwysig i chi

Meddyliwch am rywbeth sy'n bwysig i chi ac sy'n gwneud ichi deimlo'n angerddol. Gallai fod yn atal bwlio, helpu'r amgylchedd, neu hyrwyddo dulliau o ddatrys gwrthdaro. Beth bynnag y bo, dewiswch achos sydd wirioneddol wrth eich calon.

### 2 Dysgu a deall

Nawr, beth am ddysgu mwy am y mater rydych chi wedi'i ddewis. Darllenwch amdano, chwiliwch ar y rhyngrwyd, siaradwch â ffrindiau a pherthnasau. Bydd deall y pwnc yn eich galluogi i ysgrifennu deiseb gref a darbwyllol.

### 3 Penderfynu beth i'w ddweud

Meddyliwch am y neges bwysicaf rydych chi am ei rhannu. Byddwch yn gryno! Dylai eich neges esbonio pam bod y mater sydd gennych dan sylw yn bwysig, a pha newid rydych chi am ei greu.

### 4 Llunio eich deiseb

Nawr rhowch eich meddyliau mewn geiriau! Dyma strwythur syml ar gyfer eich deiseb heddwch:

- **Teitl:** Dewiswch deitl gafaelgar sy'n cyd-fynd â'ch achos.
- **Cyflwyniad:** Dechreuwch gyda datganiad pwerus sy'n tynnu sylw ac yn egluro'r mater sydd gennych dan sylw. Dywedwch wrth bawb pam bod hynny'n bwysig, a pham bod angen eu cefnogaeth.
- **Corff:** Rhannwch ffeithiau, storïau, neu hyd yn oed eich profiadau eich hun. Byddwch yn barchus a defnyddio geiriau syml y gall pawb eu deall.
- **Galwad i weithredu:** Dywedwch yn glir beth rydych chi am i bobl ei wneud. Efallai eich bod am iddynt lofnodi'ch deiseb, ei rhannu ag eraill, neu gymryd camau dros eich achos.
- **Cloi:** Gorffennwch gyda datganiad cryf a chadarnhaol. Anogwch bawb i ymuno â chi i wneud y byd yn lle mwy heddychlon.

### 5 Cael llofnodion

Mae'n bryd casglu llofnodion! Gofynnwch i'ch ffrindiau, perthnasau, aelodau eraill y dosbarth ac athrawon lofnodi eich deiseb. Gallwch hefyd ofyn i bobl wneud hynny ar-lein neu mewn digwyddiadau. Po fwyaf o lofnodion a gewch, y mwyaf pwerus fydd eich neges.

### 6 Rhoi'r si ar led

Gwnewch yn siŵr bod pawb yn clywed am eich deiseb! Gallwch ddefnyddio'ch rhwydweithiau a'ch sianeli cyfathrebu yn yr ysgol ac yn eich cymuned – yn union fel y gwnaeth y merched ym 1923! Gallai hyn gynnwys gwasanaethau, hysbysfyrddau, yr orsaf radio leol a thaflenni. Os ydych chi'n gallu gwneud hynny, gallwch dynnu llun o'ch deiseb a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Cofiwch gynnwys oedolion os ydych chi'n gwneud hyn. Dylai'r camau hyn eich helpu i lunio deiseb heddwch anhygoel a gwneud gwahaniaeth yn y byd. Cofiwch fod gweithredoedd bach hyd yn oed yn cyfrif, a bod eich llais yn gryf. **Gyda'n gilydd, gallwn greu byd sy'n fwy heddychlon i bawb.**

### Ewch ati i greu Cynllun Gweithredu:

Mae hi bob amser yn syniad da greu Cynllun Gweithredu er mwyn cael syniad clir o'r hyn rydych chi am ei gyflawni a sut a phwy a all eich cefnogi, terfynau amser, a'r adnoddau sydd gennych ar gael. Cewch hyd i dempled ar gyfer Taflen Gynllunio yma. Mae'n well mynd ati i greu eich cynllun gweithredu mewn grŵp, fel bod gwahanol aelodau o'r grŵp yn gallu awgrymu syniadau a ffyrdd o weithio. Cofiwch holi oedolyn cyfrifol (athro / rhiant) os ydych chi'n ansicr ynghylch gweithredu mewn rhyw ffordd, neu os oes angen cyngor neu gefnogaeth arnoch.

# Cyfeiriadau ac Adnoddau

### Fideos ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau):

- 'The world's largest lesson – Global Goals': www.youtube.com/watch?v=cBxN9E5f7pc **(Cynradd)**
- 'Red Alert – how to meet the Sustainable Development Goals together': www.youtube.com/watch?v=wXASRXbjR08&t=297sb **(Uwchradd)**

### Adnoddau ar y NDCau:

- 'The World's Largest Lesson' – menter gan UNICEF, sy'n annog plant i ddysgu am y Nodau Datblygu Cynaliadwy, i hunan-fyfyrio, i weithredu ac i newid eu ffordd o fyw. Gall ysgolion gofrestru am ddim: worldslargestlesson.globalgoals.org
- Sustainable Development Goals – Student Resources (gan gynnwys llyfrau, gemau ac awgrymiadau ar gyfer gweithredoedd) www.un.org/sustainabledevelopment/student-resources
- 'Cerdded y Daith Gerdded Fyd-eang: pecyn o adnoddau i gyflwyno NDC16 – Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf' Adnodd i blant 9 – 14 oed sydd ar gael yn ddwyieithog ar Hwb: https://hwb.gov.wales/repository/resource/b1d6e9c1-4bc1-4f7f-a632-a1bfdb7fb18c/overview

### Gosod y Cyd-destun – Adnoddau hanesyddol:

- The Legacy of WWI – BBC Wales History: www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/periods/ww1_background.shtml
- The impact of WWI on children – BBC News article: www.bbc.co.uk/news/uk-wales-26389055
- War and Depression – BBC: www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/guide/ch20_part2_war_and_depression.shtml
- Making ends meet and emigration from Wales (WJEC): www.bbc.co.uk/bitesize/guides/z86vxfr/revision/4
- Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (CBAC): www.wcia.org.uk/wlnu
- Ymarfer i ddeall Cynghrair y Cenhedloedd a llinell amser adnoddau Ysgol Gynradd Alaw: https://www.wcia.org.uk/cy/global-learning/womens-peace-petition-pack/
- Diwrnodiau Cennin Pedr y 1920au a'r 1930au yng Nghymru (CBAC): www.wcia.org.uk/cy/uncategorized-cy/diwrnodau-daffodil-y-1920au-30au-dathlu-gweithredu-cymunedol-ar-draws-cymru-worldpeaceday/
- Fideos byr o Gymru yn yr 1920au: https://www.bing.com/videos/search?q=Wales+in+the+1920s&qpvt=Wales+in+the+1920s&FORM=VDRE

### Adnoddau ar Ddeiseb Heddwch y Menywod:

Am ragor o wybodaeth am hanes Deiseb Heddwch y Menywod, edrychwch ar y dolenni canlynol:

www.wcia.org.uk/cy/temple-of-peace-teml-heddwch/ysbrydolwyd-gan-annie-hanes-deiseb-merched-dros-heddwch-i-america-1924/

www.wcia.org.uk/womens-centenary-timeline/

### Dyddiadur Annie

Gallwch ddarllen dyddiadur Annie, a'r fersiwn drawsgrifiedig yma:
www.flickr.com/photos/129767871@N03/albums/72157680212085978

### Adnoddau Ysgol Gynradd Alaw

Mae Ysgol Gynradd Alaw wedi creu cyfres o adnoddau trawsgwricwlaidd, sydd ar gael yma:
www.wcia.org.uk/cy/global-learning/womens-peace-petition-pack/
**Diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i rannu'r rhain.**

### WCIA

Os hoffech chi ymchwilio ymhellach i agwedd ar Ddeiseb Heddwch y Merched, cewch arweiniad i ymchwilio ac i greu 'Hanesion Cudd' yma:
www.wcia.org.uk/cy/peace-heritage/hiddenhistories-toolkit/

**Gellir cael hyd i fersiwn ar gyfer ysgolion yma.**

WCIA

WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

Adnodd Addysg wedi ei greu gan
**Jane Harries**
**Cydgysylltydd Addysg Heddwch**
**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**

janeharries@wcia.org.uk

wcia.org.uk

Dylunio Graffeg gan DesignYO! Creative